Helen Grove-White

Mae Helen wedi bod yn gweithio ac yn arddangos ei gwaith fel artist gweledol ers iddi symud i Ynys Môn yn 2005. Mae ganddi ddiddordeb yn y rhyngweithiad rhwng pobl â'r tir a'r dirwedd ac mae ei gwaith yn cynnwys gwaith am newid hinsawdd a materion yn ymwneud ag ynni a hefyd archaeoleg, sef dadorchuddio, cofnodi, mapio a dehongli deunyddiau o'r gorffennol. Mae'n gweithio mewn nifer o gyfryngau, ffotograffiaeth a fideo yn bennaf, ond mae ei gwaith hefyd yn cynnwys darluniau a gosodiadau, ac yn aml mae'n pontio rhwng y gwahanol ffurfiau celfyddydol.

Mae hi'n adnabyddus yn Ynys Môn am ei phrosiect aml-artist yn ymwneud â datgomisiynu gorsaf bŵer Wylfa, a arweiniodd at arddangosfa a deithiodd ledled Cymru, *Pŵer yn y Tir*, ac fe gyd-drefnodd arddangosfa yn Oriel Ynys Môn , *Stori Wylfa*. Wedi hynny, mae'r cloddfeydd archeolegol diweddar yn Wylfa wedi cynnig cyfle na ellid ei wrthod iddi archwilio'r gorffennol a'r dyfodol mewn astudiaeth fanwl o dirwedd gymhleth a dadleuol sy'n cael ei datgelu a'i datblygu mewn amser real.

Mae ei gwaith wedi cael ei arddangos ledled Cymru, ac yn Lloegr, yr Alban, Iwerddon, yr UDA a Japan. Mae hi newydd ddychwelyd o Japan, lle treuliodd gyfnod fel artist preswyl ar ôl derbyn gwahoddiad i barhau ei gwaith ar ddiwylliant niwclear. Roedd y cyfnod preswyl yn cynnwys archwilio agweddau cyffredin rhwng Japan a Chymru yn ymwneud â phroblemau pŵer niwclear, ond cafodd gyfle hefyd i edrych i mewn i archeoleg Jomon ac ymasiad niwclear, a chynnig myfyrdod pellach ar y gorffennol a'r dyfodol, wedi ei ysgogi gan gyd-destun diwylliannol arall.

Tu allan a thu hwnt i'w gwaith ei hun, mae Helen wedi ceisio cyfrannu'n gyffredinol i fywyd celfyddydol Gogledd Môn, drwy'r cynllun Stiwdio Agored, drwy drefnu'r Gloch Amser a Llanw ar draeth Cemaes a'r cyrsiau preswyl mewn Celfyddyd Tir a gynhaliwyd dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae'n helpu i drefnu pedair arddangosfa'r flwyddyn o waith artistiaid lleol yn y caffi cymunedol yn Llanfechell.

Gellir gweld gwaith diweddaraf Helen yn yr Amgueddfa yn yr arddangosfa Darganfyddiadau Archeolegol (12.01.2019 – 23.06.2019)